OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 581 (Cy. 53)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a pharagraff 9 o Atodlen 1 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddodd y pŵ er i wneud rheoliadau o dan adran 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 , a pharagraff 9 o Atodlen 1 iddi o ran Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2(a) o, ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).